Welsh

Arweiniad i Lwfans Tai Lleol

(A guide to Local Housing Allowance)

Mae'r daflen hon yn egluro'r ffordd newydd o gyfrif uchafswn y Budd-dal Tai y gallwch ei dderbyn. Enw'r ffordd newydd hon yw Lwfans Tai Lleol. Bydd yn dechrau 7 Ebrill 2008 a bydd yr un fath lle bynnag y byddwch yn byw. Os nad ydych yn gwybod enw eich cyngor lleol, mae i'w weld ar fil treth eich cyngor.

Diweddarwyd 6 Ebrill 2009

Beth yw Budd-dal Tai?

Budd-dal Tai yw'r cymorth ariannol sydd ar gael i bobl ar gyflogau isel a chyda chynilion bach, i dalu eu rhent. Mae'n cael ei asesu ar sail eich cyflog, cynilion ac ar y bobl sy'n byw yn eich tŷ. O fewn y drefn hon, ceir uchafswm budd-dal y byddwch yn gallu ei dderbyn.

Beth yw Lwfans Tai Lleol (LTLl)?

Lwfans Tai Lleol yw'r ffordd newydd o gyfrif yr uchafswm Lwfans Tai y gallwch ei dderbyn. Mae'r swm yn dal i ddibynnu ar eich cyflog a'ch cynilion. Yr unig beth sy'n newid yw'r ffordd y byddwn yn cyfrif eich Budd-dal Tai. Bydd lefelau'r LTLl i'w gweld ar ein gwefan.

Pwy fydd yn gallu gwneud cais am yr LTLl?

Bydd pawb sy'n derbyn Budd-dal Tai o 7 Ebrill 2008 ymlaen yn cael ei lwfans wedi ei gyfrif o dan y drefn LTLl. Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai eisoes, ni fydd y rheolau'n newid nes byddwch yn symud tŷ neu'n rhoi'r gorau dros dro i wneud cais.

Nid yw'r Lwfans Tai Lleol (LTLl) yn effeithio arnoch os ydych:

- yn byw mewn cartref sy'n eiddo i ni neu'r awdurdod lleol yn landlord;
- yn denant i landlord cofrestredig yn y gymdeithas;
- yn byw mewn tai sy'n cael eu cynnal;
- yn denant cyn 15 Ionawr 1989 (2 Ionawr 1989 yn yr Alban);
- yn byw mewn carafán, ar gwch neu mewn hostel: neu fod
- y Swyddog Rhent wedi penderfynu fod y rhan fwyaf o'r rhent yr ydych yn ei dalu am eich tenantiaeth ar gyfer prydau bwyd sy'n cael eu paratoi ar eich cyfer.

Os ydych yn perthyn i un o'r grwpiau uchod, byddwch yn parhau i gael eich Budd-dal Tai wedi ei gyfrif o dan y rheolau presennol.

Rwyf yn derbyn Budd-dal Tai yn barod. A fydd fy mudd-dal yn newid?

Na fydd. Bydd eich budd-dal yn aros yr un fath. Er hynny, os byddwch yn newid eich cyfeiriad neu'n rhoi'r gorau i hawlio'ch Budd-dal Tai am o leiaf wythnos, bydd cais newydd yn cael ei ystyried o dan reolau'r LTLl..

Sut bydd LTLl yn gweithio?

Bydd y Swyddog Rhent yn penderfynu ymlaen llaw uchafswm eich Budd-dal Tai. Ni fydd yn dibynnu ar faint o rent a dalwch. Bydd uchafswm y Budd-dal yr un fath i bob teulu o'r un faint yn eich ardal, waeth pa wahaniaethau sydd yn y rhenti yr ydych chi a theuluoedd eraill yn eu talu mewn gwirionedd.

Ardaloedd mawr y farchnad gosod eiddo

Mae'r Gwasanaeth Rhent (The Rent Service) wedi rhannu'r wlad yn gyfres o ardaloedd mawr ar gyfer y farchnad llogi tai (BRMA). Maent yn cynnwys amryw o gymdogaethau. Ym mhob ardal bydd amrywiaeth da o eiddo gwahanol o fewn dalgylch rhesymol i amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus megis iechyd, addysg, hamdden, bancio a siopa personol.

O'r wybodaeth a gesglir, bydd y rhent canolig rhwng yr uchaf a'r isaf yn yr ardal, yn cael ei ystyried fel y raddfa ar gyfer y Lwfans Tai Lleol. Bydd amrywiaeth o raddfeydd gwahanol ar gyfer pob ardal yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd y mae pob teulu ei angen.

Bydd y Gwasanaeth Rhent yn arolygu sefyllfa'r farchnad leol yn barhaus gan ddiweddaru ffigyrau'r Lwfans Tai Lleol ar gyfer pob ardal yn fisol. Gall y ffigyrau fynd i fyny neu i lawr neu aros yr un fath os ydych yn gwneud cais newydd.

Bydd eich swyddfa Budd-dal Tai yn derbyn y ffigyrau bob mis. Byddwch yn gallu defnyddio'ch cod post i weld ym mha ardal yr ydych yn byw.

Nifer yr ystafelloedd

Byddwn yn penderfynu faint o ystafelloedd y byddwch eu hangen, yn ôl y rheolau Budd-dal Tai. Os ydych yn byw mewn un ystafell gan rannu rhai cyfleusterau (er enghraifft, cegin neu ystafell ymolchi), mae graddfa arbennig ar y Lwfans Tai Lleol. Os ydych o dan 25 oed ac yn byw ar eich pen eich hun, byddwch hefyd yn derbyn y raddfa hon.

Os nad yw'r uchod yn berthnasol i chi, byddwn yn cyfrif nifer eich ystafelloedd yn ôl y drefn isod.

Cyfrifwn un llofft ar gyfer pob un o'r canlynol:

- Cwpwl
- Unigolyn sydd yn 16 oed neu drosodd
- Dau blentyn o'r un rhyw nes eu bod yn 16 oed
- Dau blentyn sydd o dan 10 oed
- Plentyn (rhywun sydd o dan 16 oed)

Dim ond unwaith mae pob person yn cael ei gyfrif a hynny yn y categori y daw iddo gyntaf.

Nid ydym yn cyfrif pawb yn eich tŷ pan fyddwn yn penderfynu faint o ystafelloedd y byddwch eu hangen. Byddwn yn eich cyfrif chi a'ch partner yn ogystal ag unrhyw blant neu bobl ifanc yr ydych yn gyfrifol amdanynt. Rydym hefyd yn cyfrif oedolion eraill sy'n byw gyda chi os nad ydynt yn preswylio neu yn lletya gyda chi. Serch hynny, nid ydym yn cyfrif plant maeth na thenantiaid ar y cyd.

Pa raddfa sy'n berthnasol i mi?

Bydd uchafswm eich Budd-dal Tai yr un fath â graddfa'r LTLl ar gyfer nifer yr ystafelloedd y byddwch eu hangen yn eich ardal.

O Ebrill 2009, y **swm uchaf** o Fudd-dal Tai y gallwch ei dderbyn fydd Lwfans Tai Lleol ar gyfer pum llofft. Os byddwch yn gwneud cais newydd am Fudd-dal Tai neu'n symud i mewn i lety wedi ei rentu'n breifat ar ôl 6 Ebrill 2009, bydd eich cais yn cael ei asesu ar raddfa Lwfans Tai Lleol pum llofft yn yr ardal y byddwch yn byw ynddi.

Os ydych eisoes yn derbyn Budd-dal Tai gyda LTLl ar gyfer chwe llofft neu fwy, byddwch yn parhau i'w dderbyn nes y bydd eich achos yn cael ei adolygu. Os nad yw eich sefyllfa wedi newid, bydd eich adolygiad fel arfer yn digwydd flwyddyn ar ôl i chi wneud cais am Fudd-dal Tai neu flwyddyn ar ôl eich adolygiad diwethaf. Yn dilyn yr adolygiad, mae'n debyg y byddwch yn parhau i dderbyn Budd-dal Tai hyd at 26 wythnos ar gyfradd eich Lwfans Tai presennol. Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu ar sail Lwfans Tai Lleol pum llofft yn eich ardal bresennol.

Bydd y Gwasanaeth Rhent yn cyhoeddi graddfeydd newydd bob mis. Bydd y raddfa berthnasol i chi yn dibynnu ar ddyddiad gwneud eich cais. Yn arferol, golyga hyn y dyddiad y bu i ni dderbyn eich ffurflen gais neu'r dyddiad y bu i chi holi gyntaf am Fudd-dal Tai, pe byddwch yn dychwelyd y ffurflen gais o fewn y mis o'r dyddiad hwnnw. Nid yw'n gwneud dim gwahaniaeth os byddwn yn talu'ch Budd-dal Tai yn ystod y mis canlynol, gan y bydd eich budd-dal yn seiliedig ar y raddfa a oedd yn weithredol pan wnaethoch y cais.

Mae fy rhent yn uwch na'r Lwfans Tai Lleol.

Uchafswm y budd-dal y byddwch yn ei dderbyn yw graddfa'r LTLl yn eich ardal yn ôl maint eich teulu, ar gyfer mis eich cais. Os ydy eich rhent yn fwy na'r swm hwn, bydd rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth eich hun. Os ydy eich amgylchiadau'n arbennig, darllenwch y daflen "A guide to Discretionary Housing Payments" neu siaradwch â ni.

Mae fy rhent yn is na'r Lwfans Tai Lleol.

Uchafswm eich Budd-dal Tai yw'r rhent a dalwch bob wythnos, a hyd at £15 yr wythnos ar ben hynny. Dyma'r uchafswm y mae'r Llywodraeth wedi ei benderfynu y gellir ei ddefnyddio i gyfarfod eich Budd-dal Tai. Ni fydd uchafswm eich Budd-dal Tai yn fwy na'ch arian LTLl.

Enghraifft
Rhent = £90 yr wythnos
LTLl = £120 yr wythnos
Uchafswm Budd-dal Tai = £105 yr wythnos

Enghraifft
Rhent = £90 yr wythnos
LTLl = £100 yr wythnos
Uchafswm Budd-dal Tai = £100 yr wythnos

Os bydd fy rhent yn cynyddu, a fydd fy Mudd-dal Tai yn cynyddu hefyd?

Byddwn yn adolygu'ch graddfa LTLl bob blwyddyn ar ben-blwydd y dyddiad y gwnaethoch gais. Yna bydd uchafswm eich Budd-dal Tai ar yr un raddfa â'r LTLl sydd yn berthnasol i'r mis hwnnw, fel, y gall hyn olygu y bydd eich rhent yn codi. Ni fydd uchafswm eich Budd-dal Tai yn cael ei godi os bydd eich rhent yn codi.

Rwyf wedi gofyn i'm cais gael ei ôl-ddyddio. Ar ba raddfa'r Lwfans Tai Lleol fydd fy nghais yn cael ei seilio?

Mae hyn yn dibynnu os ydych wedi gofyn i'ch cais gael ei ôl-ddyddio i ddyddiad cyn 7 Ebrill 2008, ai peidio.

Os ydym wedi penderfynu ôl-ddyddio'ch cais i ddyddiad cyn 7 Ebrill 2008, byddwn yn ystyried dyddiad y cais fel un a ddaeth cyn i reolau Lwfans Tai Lleol ddod i rym. Fel canlyniad, bydd cyfanswm eich Budd-dal Tai yn dibynnu ar yr hyn y bydd y Swyddog Rhent yn ei benderfynu. Yr unig amser y byddwch yn newid i LTLl yw pan fyddwch yn mudo neu os ydych yn peidio â gwneud cais, ac yna ail ddechrau.

Os ydych yn gofyn am gael ôl-ddyddio'ch cais i ddyddiad ar ôl 7 Ebrill 2008, ac y cytunwn i wneud hyn, bydd graddfa eich LTLl yn seiliedig ar yr ystadegau sy'n cael eu defnyddio yn y mis yr oeddech wedi gofyn i'ch cais gychwyn. Efallai y bydd hwn yn wahanol i ffigyrau'r mis y gwnaethoch eich cais ynddo. Byddwn yn adolygu graddfa'ch LTLl ar ben-blwydd ddechrau'ch cais.

Carwn i'm Budd-dal gael ei dalu i'r landlord. A ydy hyn yn bosibl?

O dan yr LTLl, byddwn yn talu'ch Budd-dal Tai yn uniongyrchol i chi, naill ai i gyfrif banc neu drwy siec. Chi sydd yn gyfrifol am dalu'r landlord y swm cywir ar yr amser iawn.. Pur anaml y talwn eich budd-dal yn uniongyrchol i'ch landlord. Byddwn yn gwneud hyn yn unig os tybiwn eich bod yn cael anhawster i drefnu'ch rhent, os ydych wyth wythnos neu ragor ar ei hôl hi gyda'r taliadau neu os tybiwn na wnewch chi dalu'ch rhent. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar bob achos yn unigol, ac efallai yn gofyn i chi roi rhesymau neu gynnig tystiolaeth i ddangos pam y dylem dalu'ch landlord. Os dymunwch fwy o gymorth gyda hyn, cysylltwch â ni neu'r Ganolfan Gynghori (CAB).

Nid oes gennyf gyfrif banc

Os nad oes gennych gyfrif banc, fe dalwn eich Budd-dal Tai drwy siec, er y byddai'n well gennym ei dalu i gyfrif banc gan ei fod yn fwy diogel ac effeithiol. Gallwn ni neu'r Ganolfan Gynghori (CAB) roi gwybodaeth a chyngor i chi ynglŷn â sut i agor cyfrif banc. Wedi gwneud hynny byddwch yn gallu talu'ch rhent trwy drefnu archeb banc gyda'ch landlord. Dyma ffordd seml o sicrhau bod y rhent yn cael ei dalu bob mis.

Rwyf yn symud i dŷ newydd. Sut caf wybod beth fydd uchafswm fy Mudd-dal Tai?

Bydd rhaid darganfod beth yw cyfraddau'r LTLl ar gyfer yr ardal lle y dymunwch symud iddi. Bydd y wybodaeth yma ar gael yn ein swyddfeydd ac ar ein gwefan.

Yna bydd rhaid cyfrif nifer y llofftydd y byddwch eu hangen. Mae hyn yn seiliedig ar yr adran "Nifer yr Ystafelloedd." Nid nifer yr ystafelloedd sydd yn yr eiddo yw hwn, ond y nifer bydd eich teulu eu hangen. Graddfa'r Lwfans Tai Lleol ar gyfer y nifer o ystafelloedd yn y tŷ yn yr ardal honno fydd uchafswm y Budd-dal Tai a dderbyniwch, waeth beth fydd y rhent.

Pan fyddwch yn symud cartref, byddwn yn gweithredu'r LTLl perthnasol i'ch eiddo newydd.

A wyf yn dal o dan orfodaeth i ddweud wrthych am fy holl incwm a chynilion?

Ydwyf. Nid oes newid yn y ffordd yr ydym yn cyfrif eich Budd-dal Tai gan ddefnyddio'ch incwm a'ch cynilion. Cewch fwy o wybodaeth ynglŷn â'r ffordd y byddwn yn cyfrif Budd-dal Tai o'r taflenni "Help with Rent"a "Council Tax for People of Working Age" neu, "Help with Rent and Council Tax for Pensioneers." Yr unig beth sy'n newid yw'r ffordd y byddwn yn cyfrif uchafswm y Budd-dal Tai. Mae'n rhaid i chi barhau i anfon manylion eich incwm a'ch cynilion a'n hysbysu ynglŷn ag unrhyw newid yn eich amgylchiadau.

Mae maint y teulu wedi newid. Beth fydd yn digwydd i'm Budd-dal Tai?

Bydd rhaid i chi ddweud wrthym os bydd rhywun yn gadael y cartref. Yna byddwn yn newid uchafswm eich Budd-dal Tai i raddfa gywir yr LTLl i adlewyrchu'r newid ar eich aelwyd.

Os bydd rhywun yn cael pen-blwydd yn eich teulu a fydd yn effeithio ar raddfa'r LHA (er enghraifft, pan fydd plentyn yn 16 oed), efallai y bydd rhaid newid eich LHA gan y bydd angen ystafell arall ar y person hwnnw. (Gweler "Nifer yr Ystafelloedd" uchod

Nid wyf yn cytuno â graddfa'r Lwfans Tai Lleol. A allaf apelio?

Na chewch. Nid yw'n bosibl i apelio yn erbyn graddfa'r LTLl. Y rheswm am hyn yw bod y lefel wedi ei osod ar gyfer yr holl ardal a byddai unrhyw newid yn effeithio ar bobl eraill sy'n fodlon ar eu graddfa.

Ble caf fwy o gyngor?

Os dymunwch fwy o gymorth neu gyngor, cysylltwch â'ch cyngor lleol. (Cewch hyd i enw'ch cyngor lleol ar fil treth eich cyngor.)

Cewch fwy o gymorth hefyd o'r safleoedd canlynol ar y we:

www.dwp.gov.uk – Adran Waith a Phensiwn

www.therentservice.gov.uk – Y Gwasanaeth Rhent

www.adviceguide.org.uk – Canolfan Gynghori (CAB)

Cyngor Annibynnol

Os oes arnoch angen cyngor, cysylltwch â'ch Canolfan Gynghori (CAB) lleol. Cewch eu rhif ffôn yn y Llyfr Ffôn (a rhifau asiantaethau lleol eraill sy'n rhoi cyngor, yn eich llyfrgell leol, neu drwy gysylltu â'ch cyngor lleol.

Ffurfiau eraill

Cewch y wybodaeth sydd yn y daflen hon mewn print bras, mewn Braille, mewn fersiwn sain ac mewn ieithoedd eraill. Ewch i'n gwefan: www.benefit-leaflets.org am fwy o wybodaeth.